YSGOL ABERCONWY

21.05.2026

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Yn Ysgol Aberconwy, rydym bob amser yn ymdrechu i wneud penderfyniadau ystyriol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwella profiad dyddiol ein disgyblion – o ran eu dysgu a'u lles. Gyda hyn mewn golwg, hoffem rannu newid arfaethedig i wisg yr ysgol ac, yn bwysig, egluro pam rydym yn credu y bydd hyn o fudd i'ch plant.

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon, cyflwynwyd addasiad bach ond arwyddocaol – caniatáu i ddisgyblion wisgo eu cit Addysg Gorfforol ar y diwrnodau pan fydd ganddynt wersi AG ar yr amserlen. Ers hynny, rydym wedi casglu adborth yn ofalus gan ddisgyblion a staff ac wedi adolygu effaith y newid hwn.

O ganlyniad, rydym bellach yn cynnig symud i fodel gwisg holl-bwrpas llawn. Byddai hon yn wisg gyfforddus, hyblyg ac yn cefnogi cyfranogiad gweithredol ym mhob agwedd ar fywyd ysgol.

Mae ein rhesymeg yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

**Dileu rhwystrau i gyfranogiad**
Mae gwisg holl-bwrpas yn galluogi disgyblion i symud yn rhydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau heb betruso, a theimlo'n gyfforddus drwy gydol y dydd. Mae'n cefnogi lles ac yn atgyfnerthu neges syml: bod yn weithgar, ymgysylltiedig ac yn barod i ddysgu yw craidd pwy ydym ni fel ysgol. Mae ymchwil, gan gynnwys astudiaethau gan Brifysgol Caergrawnt, yn awgrymu bod llai o bobl ifanc mewn gwledydd lle mae gwisgoedd traddodiadol yn arferol yn cyrraedd y lefelau argymelledig o weithgarwch corfforol dyddiol. Os yw rhywbeth mor syml â gwisg ysgol yn cyfyngu ar symud – hyd yn oed mewn ffyrdd bach – yna mae'n briodol ein bod yn ailystyried hyn. Mae llawer o

Dear Parents/Carers,

At Ysgol Aberconwy, we are always striving to make thoughtful, evidence-informed decisions that improve the daily experience of our students—both in terms of their learning and their wellbeing. With this in mind, we would like to share a proposed change to our school uniform and, importantly, explain why we believe this will benefit your children.

At the beginning of this academic year, we introduced a small but significant adjustment—allowing students to wear their PE kit on the days when they have timetabled PE lessons. Since then, we have carefully gathered feedback from students and staff and reviewed the impact of this change.

As a result, we are now proposing a move to a fully all-purpose uniform model. This would be a uniform that is comfortable, versatile, and supports active engagement in all areas of school life.

Our rationale is based on the following key principles:

**Removing barriers to participation.**
An all-purpose uniform allows students to move freely, take part in activities without hesitation, and feel comfortable throughout the day. It supports wellbeing and reinforces a simple message: being active, engaged, and ready to learn is central to who we are as a school. Research, including studies from the University of Cambridge, suggests that in countries where traditional uniforms are the norm, fewer young people meet recommended levels of daily physical activity. If something as simple as


MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

bynciau – megis Ysgol Goedwig, Dylunio a Thechnoleg, drama a dawns – yn gofyn am symudiad, hyblygrwydd a chyfranogiad gweithredol. Mae gwisg holl-bwrpas yn sicrhau bod disgyblion bob amser yn barod i ymgysylltu'n llawn.

**Cynhwysiant**
Rydym yn gwybod bod rhai eitemau gwisg traddodiadol yn gallu bod yn anghyfforddus ac yn tynnu sylw rhai disgyblion, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion synhwyraidd. Rydym hefyd wedi gwrando'n ofalus ar lais y disgybl, gyda rhai dysgwyr yn rhannu bod agweddau ar wisg draddodiadol yn gallu gwneud iddynt deimlo'n hunanymwybodol. Mae'r cynnig hwn yn ymateb yn uniongyrchol i'r pryderon hynny ac yn cefnogi amgylchedd mwy cynhwysol i bob dysgwr.

**Cysondeb ac eglurder**
Mae un wisg holl-bwrpas yn dileu unrhyw amwysedd. Mae disgwyliadau'n dod yn gliriach i ddisgyblion, yn haws i deuluoedd eu dilyn ac yn fwy syml i staff eu monitro. Mae hyn yn ein galluogi i gynnal safonau uchel mewn ffordd sy'n deg, yn gyson ac yn dryloyw.

**Fforddiadwyedd**
Rydym yn ymwybodol iawn o gostau bywyd ysgol i deuluoedd. Mae'r model hwn yn symleiddio disgwyliadau ac mae ganddo'r potensial i wneud gwisg ysgol yn fwy fforddiadwy yn gyffredinol. Bydd prynu un wisg yn unig yn lleihau costau i deuluoedd. Dewch o hyd i ddolen i'r Grant Mynediad i Wisg Ysgol ar gyfer teuluoedd sy'n gymwys ar gyfer hyn: Grant Hanfodion Ysgol / Grant Gwisg Ysgol ym Mwrdeistref Sirol Conwy - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Cyflwyniad a hunaniaeth**
Mae gan wisg holl-bwrpas sydd wedi'i diffinio'n glir, gyda rhestr benodol o eitemau cymeradwy a disgwyliadau uchel o ran cyflwyniad, y potensial i gryfhau ein hymdeimlad o hunaniaeth fel cymuned ysgol.

uniform is limiting movement—even in small ways—then it is right that we reconsider it. Many subjects—such as Forest School, Design and Technology, drama, and dance—require movement, flexibility, and active participation. An all-purpose uniform ensures that students are always ready to engage fully.

**Inclusion.**
We know that for some students—particularly those with sensory needs—traditional uniform items can be uncomfortable and distracting. We have also listened carefully to student voice, with some learners sharing that aspects of traditional uniform can make them feel self-conscious. This proposal responds directly to those concerns and supports a more inclusive environment for all learners.

**Consistency and clarity.**
A single all-purpose uniform removes ambiguity. Expectations become clearer for students, easier for families to follow, and more straightforward for staff to monitor. This allows us to maintain high standards in a way that is fair, consistent, and transparent.

**Affordability.**
We are very conscious of the cost of school life for families. This model simplifies expectations and has the potential to make uniform more affordable overall. Purchasing one single uniform will reduce casts for families. Please also find a link to the School Uniform Access Grant for families who qualify for this: School Essentials Grant / School Uniform Grant in Conwy County Borough - Conwy County Borough Council

**Presentation and identity.**
A clearly defined all-purpose uniform, with specific approved items and high expectations around presentation, has the potential to


MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Wrth gwrs, ymgynghoriad yw hwn. Mae eich barn yn bwysig iawn i ni ac rydym wedi ymrwymo i wrando'n ofalus cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Mae crynodeb o'r cynnig isod er eich ystyriaeth. Gellir prynu'r holl eitemau gwisg gan ein cyflenwyr lleol, gyda gwasanaeth dosbarthu i'r cartref ar gael.

strengthen our shared sense of identity as a school community.

Of course, this is a consultation. Your views matter greatly to us, and we are committed to listening carefully before making any final decisions. Please find below a summary of the proposal for your consideration. All uniform items can be purchased from our local suppliers, with home delivery available.

| **Eitemau / Items** | **Darlun / Illustration** | **Cost** |
|---|---|---|
| Ysgol Abercowny Polo Top (old or new style) |  | Between £5.00-£15.00 |
| Ysgol Abercowny Jumper<br>**or**<br>Sweatshirt<br>(Student Choice) |  | £15.00<br>or<br>£23.00 |
| Choice of:<br>Aptus Navy Essential Leggings<br>Aptus Essential/ Performance Track Pants |  | £13.00-£16.00<br>£12.99 |


MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

YSGOL ABERCONWY

| | | |
|---|---|---|
| Aptus Navy Jogger Pants Wide leg |  | £15.00 |
| Aptus Essential/ Performance Navy Shorts |  | £10.00 |
| Skort |   | £13.99 |
| Esgid chwaraeon ddu o ddewis y disgybl (dim logos na brandio) – rhaid i'r esgid fod wedi'i dylunio i ddarparu clustogi, cefnogaeth a pherfformiad yn ystod gweithgarwch. Ni chaniateir trainers ffasiwn. Gweler y wefan am ragor o fanylion.<br><br>Black sports trainer of choice (no logos or branding)- trainer built for cushioning, support, and performance during activity. Fashion trainers are not permitted. Please see website for further details. | | |
| *efallai y bydd angen eitemau ychwanegol o offer Addysg Gorfforol fel esgidiau pêl-droed ar gyfer rhai chwaraeon<br><br>*additional items of PE equipment such as football boots may be required for some sports | | |

**Cyfnod trosiannol**
Rydym yn gwerthfawrogi y bydd angen cyfnod trosiannol wrth gyflwyno'r wisg newydd. Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig y dewis o'r siwmper ysgol bresennol neu'r top AG, yn ogystal â'r hen neu'r newydd polo. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn lleihau costau i rieni, gyda'r angen yn unig i brynu'r joggers, leggings neu'r skort penodedig.

**Cyflenwyr**

- Uniformed (siop Llandudno neu Fae Colwyn) neu archebu drwy'r Uniformed Uniformed - School & Workwear | Colwyn Bay | Facebook. Mae gwasanaeth dosbarthu i'r cartref ar gael.

- Personalise me Print - Ysgol Aberconwy School Uniform - PersonaliseMe Print Ltd

**Casglu eich barn**
Rydym wedi ymrwymo i gasglu adborth gan rieni ar y cynnig hwn ac yn gwerthfawrogi eich safbwyntiau'n fawr. Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu, byddwn yn cynnig y dulliau canlynol i rieni rannu eu barn:

- Microsoft form: Ymgynghoriad Gwisg Pob Pwrpas Ysgol Abercowny / Ysgol Abercowny All Purpose Uniform – Fill out form

- Digwyddiad wyneb yn wyneb- Dydd Iau 4 Mehefin 2026 am 4.30yh yn neuadd yr ysgol.

Yn gywir

Mr I.A. Gerrard
Pennaeth

**Phasing in**
We obviously appreciate that there will be a transitional period whilst we phase in the uniform. For this reason, we are offering the options of the current school sweater or the PE top and also the old or new style polo top. We trust that this will minimize costs for parents with parents only needing to purchase the identified joggers/ leggings or Skort.

**Stockists**

- Uniformed (Llandudno or Colwyn Bay Store. Alternatively order via website, Facebook Uniformed - School & Workwear | Colwyn Bay | Facebook or Instagram. Home delivery service optional.

- Personalise me Print Ysgol Aberconwy School Uniform - PersonaliseMe Print Ltd

**Gathering Your Views**
We are committed to gathering parent feedback on this proposal and genuinely value your perspectives. To ensure everyone has the opportunity to contribute, we will be offering the following ways for parents to share their views:

- Microsoft form: Ymgynghoriad Gwisg Pob Pwrpas Ysgol Abercowny / Ysgol Abercowny All Purpose Uniform – Fill out form

- Face to face event - Thursday 4th June 2026 at 4.30pm in the school hall.

Yours Faithfully

Mr I.A. Gerrard
Headteacher


MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE